The message is displayed incorrectly? View this email online.

# Cylchlythyr Haf

Gorffennaf 2023

Annwyl Landlord/Asiant,

Edrychwch ar y diweddariadau sector rhentu preifat diweddaraf, gan gynnwys:

- Canllaw newydd Rhentu Doeth Cymru i Denantiaid,
- Pam ei bod yn bwysig cadw manylion eich busnes yn gyfredol,
- Ymgynghoriad Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru, a
- Cynlluniau prydlesu sydd ar gael i chi.

---

## | Diweddariadau Rhentu Doeth Cymru




## Canllaw Newydd i Denantiaid gan Rhentu Doeth Cymru

Mae Canllaw Tenantiaid wedi'i ddiweddaru wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r fersiwn hon yn adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd yn sgil y ddeddfwriaeth Rhentu Cartrefi. Mae'n esbonio'r newidiadau sy'n effeithio ar 'ddeiliaid contract' mewn ffordd glir a syml.

Mae'r Canllaw yn hanfodol i denantiaid sy'n rhentu yng Nghymru - mae'n rhoi cyngor ar ddod o hyd i'r cartref cywir, cyfrifoldebau tenantiaid a landlordiaid a’r hyn i'w wneud ar ddiwedd tenantiaeth.

Mae gan bob trwyddedai Rhentu Doeth Cymru rwymedigaeth i roi copi o'r Canllaw Tenantiaid i denantiaid pan sefydlir tenantiaeth, ond efallai y byddwch nawr am roi’r fersiwn wedi'i diweddaru iddynt.

Canllaw i Denantiaid



## Gwybodaeth eich busnes landlord: Hysbysiad pwysig

Mae gennych rwymedigaethau cyfreithiol i gadw eich gwybodaeth amdanoch chi a'ch portffolio yn gyfredol. Dyma enghreifftiau o newidiadau y dylid eu gwneud mewn modd amserol:

- Os nad ydych yn landlord mwyach
- Rydych wedi prynu neu werthu eiddo rhent
- Mae eich manylion cyswllt wedi newid (cyfeiriad gohebiaeth, e-bost, neu rif ffôn)
- Mae'r cyfrifoldeb o ran gweithgareddau gosod a rheoli wedi newid.

## Pam fod hyn yn bwysig?

Os byddwch yn anghofio diweddaru eich gwybodaeth, bydd y data a gedwir amdanoch yn anghywir. Gallai hyn arwain at Rhentu Doeth Cymru yn cysylltu â chi trwy gamgymeriad, er enghraifft, am eiddo nad ydych yn berchen arnynt mwyach. Gall y gofrestr gyhoeddus ddangos gwybodaeth anghywir amdanoch hefyd.

Weithiau, gallai methu â diweddaru manylion arwain at ganlyniadau mwy difrifol gan fod troseddau wedi'u cyflawni neu fod amodau trwydded wedi'u torri.

Felly peidiwch ag oedi! I wirio bod eich manylion yn gyfredol, mewngofnodwch i'ch cyfrif Rhentu Doeth Cymru a chliciwch ar eich dangosfwrdd defnyddiwr. Os oes angen help arnoch, cysylltwch â ni.



# Asiantau: Sut gallwch chi ddysgu gan eraill i wella eich busnes

Mae archwiliadau asiant bellach yn cael eu cynnal. Mae patrwm o fethiannau cyffredin wedi dod i'r amlwg; rhestrir chwech o'r themâu mwyaf cyffredin isod:

1. Cyfrifoldebau asbestos.
2. Arddangos rhestr lawn o ffioedd ar wefan yr asiant ac yn y safle.
3. Gofyn neu ei gwneud yn ofynnol i wneud taliadau a ystyrir yn waharddedig gan y ddeddfwriaeth Ffioedd Rhentu Cartrefi.
4. Methu ag uwch lwytho rhestr eiddo a reolir i broffil Rhentu Doeth Cymru yr asiant yn flynyddol.
5. Dim Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ei le.
6. Methiant i gael cytundeb ysgrifenedig gyda'r landlord ar gyfer gwaith sy'n cael ei is-gontractio.

## Sut gallaf baratoi?


Mae gan Rhentu Doeth Cymru adnoddau i'ch helpu i baratoi ar gyfer archwiliad asiant a gweithredu gwelliannau mewn da bryd.

Dysgwch o brofiadau asiantau eraill a archwilir:

Darllenwch am y broses archwilio a ddarllenwch ddeunydd cymorth:

Darllenwch ein cylchlythyr archwilio asiantau

Ewch i'n tudalen we archwilio asiant




# Dangosfyrddau Rhyngweithiol newydd wedi lansio

Mae dangosfyrddau rhyngweithiol yn trawsnewid y ffordd y gallwch gael gafael ar ddata am y sector rhent preifat yng Nghymru. Mae dau dangosfwrdd newydd wedi cael eu lansio ac mae mwy ar y ffordd.

## Beth y gall dangosfyrddau Rhentu Doeth Cymru ei ddweud wrthym?

Mae Eiddo Cofrestredig wedi bod yn destun llawer o drafod dros y blynyddoedd diwethaf wrth i effaith COVID newid ein harferion gwyliau ac mae llawer yn dadlau bod cyfran o'r sector rhent wedi newid i osod ar gyfer gwyliau.

Mae data Rhentu Doeth Cymru yn dangos y nifer uchaf o eiddo cofrestredig cyn y gofyniad i'r rhan fwyaf o landlordiaid adnewyddu eu cofrestriadau yn 2021. Arweiniodd y gofyniad i adnewyddu cofrestriadau at ymarfer glanhau data hynod effeithiol wrth i landlordiaid ddychwelyd i'r wefan. Rydym bellach yn gweld nifer yr eiddo cofrestredig yn cynyddu eto.

Gellir defnyddio ein dangosfwrdd Perfformiad Ynni i gymharu'r sgoriau perfformiad ynni yn ôl ardal awdurdod lleol. Mae hefyd yn tynnu sylw at

ardaloedd sy'n peri pryder a pha fesurau allai helpu i wella'r sector yn y dyfodol.

Mae manteision cael y data eisoes yn cael eu profi gan dimau gorfodi a strategwyr lleol a chenedlaethol.

Er mwyn bodloni gofynion Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni Llywodraeth y DU, dylai eiddo rhent fod â sgôr E neu uwch. Gallwch ddysgu mwy am ofynion effeithlonrwydd ynni a chyfleoedd ariannu yma.

Defnyddiwch ein dangosfwrdd Hyfforddiant newydd i weld faint o hyfforddiant sydd wedi cael ei gwblhau gan landlordiaid ac asiantau ers i Rhentu Doeth Cymru ddechrau. Cymharwch y nifer sy'n manteisio ar gyrsiau ar-lein ac ystafell ddosbarth, hidlo yn ôl y math o gwrs a gweld adborth rydym wedi'i dderbyn.

Neu, edrychwch ar y dangosfwrdd Gorfodi i ddysgu mwy am y mathau o gamau gorfodi a gymerwyd, ac i gymharu lefelau cydymffurfio ledled Cymru.

Cliciwch isod i weld pob dangosfwrdd:

Perfformiad Ynni



Eiddo Cofrestredig



Hyfforddiant



Gorfodi



---

## | Diweddariad Llywodraeth Cymru



## Ymgynghoriad: Creu llwybr tuag at Dai Digonol

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Ymgynghoriad Papur Gwyrdd: Cais am Dystiolaeth ar sicrhau llwybr tuag at Dai Digonol – gan gynnwys Rhenti Teg a Fforddiadwyedd.

Ymgynghoriad yw hwn i lywio cynigion y llywodraeth yn y dyfodol ar gyfer hawl i dai digonol gyda'r bwriad o sefydlu:

(a) system rhenti teg yn y farchnad rhent preifat fel bod rhenti'n fforddiadwy i bobl leol ar incwm lleol, a

(b) dulliau newydd o wneud cartrefi'n fforddiadwy i'r rhai ar incwm lleol.

Mae'r Papur Gwyrdd yn alwad am dystiolaeth i ddeall y farchnad rent yng Nghymru yn well, yn enwedig pa ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad landlordiaid wrth osod rhenti a derbyn tenantiaid a'r hyn sy'n eiddo fforddiadwy a digonol ym marn tenantiaid.

I ategu'r broses hon o gasglu tystiolaeth, mae gweithdai yn cael eu cynnal ledled Cymru. Gallwch gofrestru i fynychu yma.

Gweler yr ymgynghoriad

---

## | Cynlluniau Prydlesu â Chymorth




# Dweud eich dweud ar Gynllun Lesio Llywodraeth Cymru

Mae'r gwaith o gyflwyno Cynllun Lesio Cymru Llywodraeth Cymru yn cael ei werthuso gan Alma Economics. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'r cynllun yn cynnig cyfle i berchnogion eiddo lesio eu heiddo i awdurdodau lleol am daliadau rhent gwarantedig am 5 i 20 mlynedd.

Mae amcanion y cynllun yn cynnwys:

- Cynyddu mynediad i'r sector rhent preifat
- Cynnig sicrwydd llety yn y tymor hwy
- Gwella safonau tai, a
- Lleihau digartrefedd

P'un a ydych wedi cymryd rhan yn y cynllun ai peidio, mae Alma Economics am gael eich barn fel rhan o'u harolwg gwerthuso. Mae'r arolwg yn cau ar 6 Awst 2023.

Gwneud cais

Ateb yr arolwg




# LLETY Caerdydd: Yn cynnig cymorth cynhwysfawr i landlordiaid

Ydych chi'n berchen ar eiddo yng Nghaerdydd ac eisiau ei rentu'n ddidrafferth am ddim?

Mae Gwasanaeth Landlordiaid Eiddo Tenantiaeth/Ymholiadau (LLETY) y Cyngor yn awyddus i weithio gyda chi i greu gwell mynediad at gartrefi fforddiadwy o ansawdd dda yn y sector rhent preifat.

Rydym yn cynnig nifer o gynlluniau i dynnu'r straen allan o reoli eich eiddo rhent.

## Mae'r gwasanaeth yn cynnig:

- Grantiau i ddod ag eiddo i'r safon ofynnol gan gynnwys: grant adnewyddu o £5,000, grant pellach o £5,000 os yw eich eiddo yn cael ei ystyried yn gartref gwag a grant Effeithlonrwydd Ynni o hyd at £5,000 i ddod â'ch eiddo i sgôr TPY o C
- Rheolaeth tenantiaeth lawn
- Cymorth i'r landlord a'r tenant drwy gydol cyfnod y denantiaeth
- Gwasanaeth paru tenantiaid am ddim
- Pecyn wedi'i deilwra at eich gofynion
- Cymorth i ddeall a chadw at ofynion Rhentu Doeth Cymru a Rhentu Cartrefi

Rydym eisoes yn gweithio gyda nifer o landlordiaid yn y ddinas ac yn awyddus i glywed sut y gallwn eich helpu i reoli eich eiddo.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, e-bostiwch LLETY@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2057 0750, opsiwn1.



## Cynllun Trwyddedu Statudol ar gyfer pob darparwr Llety Ymwelwyr

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â sut y gallai cynllun trwyddedu ar gyfer yr holl ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru weithio. Daeth hyn i ben ar 17 Mawrth gyda mwy na 1,500 o ymatebion. Comisiynwyd dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion ac mae'r canfyddiadau bellach wedi'u cyhoeddi.

Gweler canfyddiadau

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales
Copyright © 2015-2023

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales
Blwch PO / PO Box 1106 Caerdydd / Cardiff CF11 1UA



Rhentu Doeth Cymru Rent Smart Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

*Rydych chi wedi derbyn yr e-bost hwn gan eich bod wedi nodi ar eich cyfrif eich bod yn hapus i dderbyn newyddion gennym ni a'n partneriaid.*

*Os hoffech chi newid eich cyswllt neu'ch dewis iaith, gwnewch hynny trwy fewngofnodi i'ch cyfrif yma.*

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales, Blwch / PO Box 1106, Caerdydd / Cardiff, Cymru / Wales CF11 1UA, United Kingdom

You may unsubscribe or change your contact details at any time.